Cig Moch a Bresych

Yn ol bob son, roedd hwn yn bryd poblogaidd i ginio nos/swper yng nghymoedd y glo yn ne Cymru.

Cynhwysion:
Darn o gig moch hallt neu ham
Cabetsen
Tatws
Saws persli

Dull
1. Rhoi'r cig mewn dŵr oer dros nos i dynnu peth o'r halen ohono.
2. Berwi'r cig mewn sosban haearn a chadw'r dŵr y berwid y cig ynddo.
3. Berwi'r bresych yn y dŵr hwnnw, a berwi'r tatws mewn sosban ar wahân.
4. Gadael i'r cig oeri.

Saws persli
1. Ychwanegu ychydig o laeth at y dŵr y berwid y tatws ynddo, rhoi bach o fenyn ynddo a'i flasu ag ychydig o bersli wedi'i falu.
2. Tewhau'r saws ag ychydig o flawd wedi'i gymysgu â dŵr o flaen llaw, a'i ferwi am rai munudau.
3. Arllwys y saws dros y tatws, bresych ac ar sleisen neu ddwy o'r cig oer.

menter iaith Castell-nedd Port Talbot
Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176